# Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg ar gyfer Rhwymedigaeth Cwmni Ynni 4 (ECO4) a Chynllun Mawr Inswleiddio Prydain (GBIS)

**This document is also available in English.**

Mae'r "Datganiad o Fwriad" hwn yn nodi cyfranogiad **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**yng nghynllun Cymhwysedd Hyblyg (Flex) y Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO4) a Chynllun Mawr Inswleiddio Prydain (GBIS) o **22/04/2025**, gyda'r bwriad o nodi aelwydydd a allai elwa o osod mesur fel rhan o brosiect ECO4 neu GBIS.
Mae ECO4 a GBIS yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyflenwyr ynni i ddarparu mesurau inswleiddio a gwresogi i gartrefi, gyda'r nod o leihau costau gwresogi cartrefi ar gyfer aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd a'r cartrefi lleiaf ynni-effeithlon.Mae elfen Cymhwysedd Hyblyg (Flex) ECO4 a GBIS yn galluogi Awdurdodau Lleol (ALl) i nodi ac atgyfeirio defnyddwyr sy'n byw mewn eiddo deiliadaeth breifat ac sy'n cael eu hystyried ar incwm isel, yn dlawd o ran tanwydd, neu'n agored i effeithiau byw mewn cartref oer.

Bydd y Datganiad o Fwriad hwn yn cael ei gyhoeddi arECO-Flex: Gwelliannau Effeithlonrwydd Ynni - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

A yw'r Datganiad o Fwriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar ran ALl arall? **Nac ydy**

Os ydyw, rhestrwch isod ar ran pa ALlau y mae'r Datganiad o Fwriad hwn yn cael ei wneud:

**Amherthnasol**

Os ydych yn bwriadu defnyddio Procsi 5, Llwybr 2,  rhowch enwau a disgrifiad byr o unrhyw gynlluniau perthnasol yma:

**Amherthnasol**

## Rhagor o Wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y **llwybrau cymhwysedd drwy ECO4 Flex**, ewch i dudalen Perchnogion Tai a Thenantiaid y Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) ar wefan Ofgem.

I gael rhagor o wybodaeth am y **llwybrau cymhwysedd drwy GBIS Flex**, ewch i dudalen Perchnogion Tai a Thenantiaid y Cynllun Mawr Insiwleiddio Prydain ar wefan Ofgem.

I gael rhagor o wybodaeth am **weinyddu ECO4 a GBIS Flex**, edrychwch ar Ganllawiau Gweinyddu Awdurdodau Lleol y Cynllun Mawr Inswleiddio Prydain ac ECO4 ar wefan Ofgem.